*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

---

# 2019 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019

DRAFFT

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 5 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn drosedd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 18 oed yng Nghymru. Mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd gwneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 18 oed yng Nghymru. Mae person sydd wedi ei euogfarnu o'r naill drosedd neu'r llall yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy ddiderfyn.

Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yw tyllu'r corff mewn rhan bersonol, pan fo'n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol.

Mae'r diffiniad o "tyllu'r corff" wedi ei ddarparu yn adran 94(1) o'r Ddeddf a'i ystyr yw gwneud trydylliad (gan gynnwys pric neu endoriad) yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith neu wrthrych arall o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn.

Rhestrir y rhannau personol o'r corff yn adran 96(2) o'r Ddeddf ac maent yn cynnwys y fron (gan gynnwys y deth a'r areola), y ffolen, y pidyn, y fwlfa a'r tafod. Ar y rhestr mae rhannau o'r anatomi gwrywaidd a

benywaidd. Cynhwysir pilenni mwcaidd yn y diffiniad gan y gall arwyneb rhannau personol o'r corff megis y fwlfa gynnwys croen a philenni mwcaidd.

Mae rheoliad 2 yn rhagnodi'r gwrthrychau sydd wedi eu cynnwys yn y diffiniad o "tyllu'r corff" yn adran 94(1) at ddibenion y drosedd yn adran 95 o'r Ddeddf (y drosedd o roi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 18 oed). Effaith hyn yw bod rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff gan ddefnyddio unrhyw un neu ragor o'r gwrthrychau rhagnodedig bellach o fewn cwmpas y drosedd yn Rhan 5 o'r Ddeddf.

Nid yw llifyddion, hylifau na deunyddiau gludiog megis Botox chwistrelladwy a llenwyddion croenol yn wrthrychau ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y diffiniad o "tyllu'r corff" at ddiben y drosedd yn adran 95 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Gofal Iechyd Poblogaethau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

DRAFT

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2019 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019

DRAFFT

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 94(1) a 123(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XXX.

(**1**) 2017 dccc 2.

**Gwrthrychau rhagnodedig at ddibenion y drosedd sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn**

**2.**—(1) Mae'r gwrthrychau a restrir ym mharagraff (2) wedi eu rhagnodi at ddibenion paragraff (b) yn y diffiniad o "tyllu'r corff" yn adran 94(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ond dim ond i'r graddau y mae'r diffiniad hwnnw yn gynwys at ddibenion y drosedd yn adran 95 o Ran 5 o'r Ddeddf honno (rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn etc.).

(2) Y gwrthrychau yw—

(a) plygiau'r cnawd;

(b) twnelau'r cnawd;

(c) angorau croenol a microgroenol;

(d) deifwyr y croen; ac

(e) unrhyw wrthrych arall nad yw'n emwaith.

DRAFFT

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad